



Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd

Canllaw arfer dda

Gorffennaf 2012



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd; a
- ▲ dysgu troseddwy.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/y cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen
---------	---------

Cyd-destun	1
Diben yr adroddiad hwn	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	5
1 Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau myfyrwyr	6
2 Cynllunio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru	8
3 Addysgu, asesu a chymorth mentora	10
Addysgu	10
Asesu	10
Mentora	10
4 Datblygiad staff, adnoddau a gweithio mewn partneriaeth	11
Datblygiad staff	11
Adnoddau	11
Gweithio mewn partneriaeth	12
5 Arweinyddiaeth ac arfarnu	13
Arweinyddiaeth	13
Arfarnu	13
6 Cymorth gan gyrff dyfarnu	15
Atodiad 1 – Astudiaethau achos	
Atodiad 2 – Y Sylfaen Dystiolaeth	
Geirfa/cyfeiriadau	
Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg	

Cyd-destun

Diben yr adroddiad hwn

- 1 Lluniwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2011-2012. Mae'r adroddiad yn arfarnu ansawdd darpariaeth Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd, mae'n nodi astudiaethau achos o arfer dda ac mae'n rhoi argymhellion ar gyfer gwella.
- 2 Bwriedir yr adroddiad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion uwchradd, ymgynghorwyr awdurdodau lleol a chyrrff dyfarnu.

Cefndir

- 3 Yn 2005, cynigiodd 31 o ysgolion Gymhwyster Bagloriaeth Cymru fel rhan o brosiect peilot. Ym Medi 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cyflwyno'r cymhwyster fesul cam ar draws Cymru. Yn Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cael ei gyflwyno i ganolfannau pellach, gan ei roi ar gael i fyfyrwyr ar draws 240 o ddarparwyr, gan gynnwys 168 o ysgolion uwchradd. Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster wedi cynyddu'n fawr ers 2005, gyda chynnydd sylweddol rhwng 2010 a 2011.

Nifer yr ymgeiswyr wedi eu cofrestru ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch ar draws yr holl ddarparwyr ôl-16 oed

Blwyddyn	Nifer yr ymgeiswyr wedi eu cofrestru
2005	299
2006	637
2007	1,329
2008	1,642
2009	2,940
2010	5,407
2011	8,323

(ffynhonnell: CBAC)

- 4 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi datblygu ochr yn ochr â pholisi Llywodraeth Cymru ar Lwybrau Dysgu 14-19 oed. Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r angen am ymagwedd fwy hyblyg a chytbwys at addysg pobl ifanc 14 i 19 oed, gan ddatblygu ystod o fedrau perthnasol, a darparu ystod ehangach o brofiadau a fydd yn addas i anghenion amrywiol pobl ifanc yng Nghymru.
- 5 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn eistedd ochr yn ochr â chymwysterau presennol ac yn eu hymgorffori. Ar lefel 3, fe'i cynlluniwyd i baratoi myfyrwyr ar gyfer addysg uwch a chyflogaeth. Mae'r cymhwyster lefel 3 hefyd yn cael ei alw'n

gymhwyster lefel uwch. Mae ganddo ddwy elfen – yr opsiynau a'r craidd.

6 Gall yr opsiynau fod yn gymwysterau academiaidd neu alwedigaethol. Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr gyflawni nifer gofynnol er mwyn cwblhau gofynion opsiynau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (gweler y tabl isod).

7 Mae'r craidd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Sgiliau Hanfodol Cymru naill ai ar lefel 2 neu ar lefel 3;
- 'Cymru, Ewrop a'r Byd' – astudiaeth o faterion gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd;
- ymchwiliad unigol;
- modiwl iaith dramor fodern;
- addysg bersonol a chymdeithasol;
- cyfnod o gyfranogi yn y gymuned; ac
- addysg yn gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys cyfnod o brofiad gwaith.

8 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gofynion.

Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru	Tystysgrif Craidd ar lefel 3 • Tri o Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 3, y mae'n rhaid i un ohonynt fod o blith cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ynghyd â gweddill Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 2 neu ar lefel 3 • Adroddiadau gwirio ac arfarnu ar gyfer gweithio gyda chyflogwyr, cyfranogi yn y gymuned a gweithgaredd menter tîm • Ymchwiliad unigol ar lefel 3 • Gofynion penodedig y cwricwlwm	Cymwysterau allanol cymeradwy cyfwerth â dwy radd A*-E TAG (er enghraifft 2 lefel A, neu CGC lefel 3 neu Dystysgrif Cenedlaethol BTEC ar lefel Pasio)
---------------------------------------	--	---

9 CBAC yw'r corff dyfarnu sydd â chyfrifoldeb am achredu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Prif ganfyddiadau

- 10 Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnig llawer o fanteision i fyfyrwyr. Trwy astudio craidd Bagloriaeth Cymru, mae mwyafrif y myfyrwyr yn gwella'u medrau hanfodol ac maent yn ennill dealltwriaeth o ystod o bynciau, gan gynnwys menter, gwleidyddiaeth a materion cyfoes, na fyddent wedi eu hastudio fel arall. Yn benodol, mae cyflawni'r ymchwiliad unigol yn helpu llawer o fyfyrwyr i ddatblygu rhai o'r medrau ymchwil a dadansoddi y mae eu hangen ar gyfer addysg uwch a gwaith. Hefyd, mae myfyrwyr yn datblygu eu hyder a'u medrau cymdeithasol trwy gymryd rhan mewn cyfranogi yn y gymuned a phrofiad gwaith.
- 11 Fodd bynnag, mae'r safonau a gyflawnir ym Magloriaeth Cymru yn amrywio llawer iawn rhwng myfyrwyr a rhwng ysgolion. Er enghraifft, mae safonau mewn ymchwiliadau unigol yn gallu amrywio o basio ar lefel 3 i lefel uchel iawn. Mae llawer o'r amrywiaeth mewn safonau yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y ffordd y mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio a'i chyflwyno mewn ysgolion gwahanol. Hefyd, mae'n adlewyrchu ystod gallu eang y myfyrwyr sy'n dilyn y craidd ar lefel 3.
- 12 Mae myfyrwyr sy'n ennill y cymhwyster yn ennill cymwysterau mewn ystod o fedrau hanfodol fel cyfathrebu a chymhwyso rhif hefyd, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hastudio ar lefel sy'n briodol i fyfyrwyr unigol. O'r holl elfennau yn y craidd, mae'r safonau isaf yn y modiwl iaith 20 awr, nad yw'n ddigon heriol yn gyffredinol i ennyn diddordeb myfyrwyr, yn enwedig y rhai mwy galluog.
- 13 Mae'r ystod eang o safonau sy'n cael eu cyflawni yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 yn awgrymu y byddai graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn adlewyrchu ystod deilliannau myfyrwyr yn decach.
- 14 Mae amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth hefyd. Mewn llawer o ysgolion, mae anghydbwysedd rhwng yr amser sy'n cael ei dreulio'n cwblhau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â chymwysterau medrau hanfodol a'r amser sy'n cael ei dreulio'n gwella medrau go iawn myfyrwyr a throsglwyddo'r rhain i ategu dysgu ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn y craidd yn dda yn gyffredinol ym mwyafrif yr ysgolion. Mewn lleiafrif o sesiynau addysgu, nid yw myfyrwyr yn cael eu herio digon gan nad yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion holl ystod gallu myfyrwyr.
- 15 Mae'r cymorth mentora a thiwtorial sy'n cael ei gynnig gan lawer o ysgolion yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniad myfyrwyr, nid yn unig yng nghraidd Bagloriaeth Cymru ond hefyd ar draws pob pwnc sy'n cael ei astudio fel opsiwn. Mae gan leiafrif o ysgolion system hylaw ar gyfer olrhain a monitro profiadau a chynnydd myfyrwyr. Mae bron pob ysgol yn casglu gwybodaeth am gwblhad elfennau amrywiol Bagloriaeth Cymru er, gan amlaf, dim ond y cydlynedd neu'r gweinyddwr sy'n gallu cael at y wybodaeth hon. Mae ychydig ysgolion yn rhannu'r wybodaeth hon gydag athrawon, anogwyr dysgu, rhieni neu fyfyrwyr ac maent yn ei defnyddio i olrhain tanberfformio ac i roi cymorth ychwanegol lle bo'r angen.

- 16 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio'n helaeth i gynnig ystod eang a diddorol o weithgareddau ym Magloriaeth Cymru ac mewn ambell enghraifft yn unig y mae'r gweithgareddau'n ennyn diddordeb myfyrwyr. Mae lleiafrif o ysgolion yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, i ategu addysgu a dysgu.
- 17 Mae Bagloriaeth Cymru yn fwyaf llwyddiannus lle caiff ei chynllunio fel rhan orfodol o'r cwricwlwm i bob myfyriwr. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn neilltuo digon o amser y cwricwlwm i gyflwyno'r craidd, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn 12 er mwyn rhoi mwy o amser i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu hopsiynau lefel 3 eraill ym mlwyddyn 13.
- 18 Mae bron pob ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gydag ystod o fudiadau i gefnogi Bagloriaeth Cymru. Mae'r cysylltiadau y maent yn eu sefydlu gyda busnesau lleol ac elusennau yn ddefnyddiol ar gyfer hwyluso cyflwyno 'menter' a phrofiad gwaith a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag eraill a chael profiadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
- 19 Er bod gan lawer o ysgolion brosesau hunanarfarnu sefydledig, mae Bagloriaeth Cymru yn aml yn sefyll y tu allan i'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd hyn. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr ysgol yn gwybod digon am ansawdd yr addysgu yn rhaglen Bagloriaeth Cymru nac yn gwybod faint o gynnydd y mae myfyrwyr yn ei wneud yn ystod gwersi.
- 20 Mae llawer o fyfyrwyr yn gadarnhaol ynghylch eu profiadau o Bagloriaeth Cymru, yn enwedig y profiadau sy'n gysylltiedig â menter, ond dywedant hefyd fod gormod o waith papur i'w gwblhau ac nad oes digon o ddatblygu medrau. Nid oes gan fyfyrwyr ddigon o gyfraniad at weithdrefnau hunanarfarnu. Er bod lleiafrif o ysgolion yn gwrando ar farn myfyrwyr ac wedi'u cynnwys mewn rhai gweithgareddau hunanarfarnu, ym mwyafrif yr ysgolion, nid yw barn myfyrwyr yn cael ei defnyddio i wella'r rhaglen.
- 21 CBAC yw prif ffynhonnell hyfforddiant, cyngor a chymorth i staff mewn perthynas â Bagloriaeth Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn effeithiol ac mae wedi cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r cymorth gan gyrff dyfarnu eraill sy'n gyfrifol am gymwysterau medrau hanfodol wedi bod yn llai effeithiol. Nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi cael digon o arweiniad ar y cymwysterau medrau hanfodol newydd nac enghreifftiau o arfer dda.
- 22 Mae gan lawer o ysgolion adnoddau digonol i ategu rhaglen Bagloriaeth Cymru yn yr ysgol. Mae ystod y deunyddiau cyfrwng Cymraeg wedi gwella, ond mae prinder cyffredinol o adnoddau Cymraeg, yn enwedig ar gyfer modiwlau addysg bersonol a chymdeithasol. Lle bo adnoddau Cymraeg yn bodoli, nid yw ysgolion bob amser yn gwybod sut i gael gafael arnynt.
- 23 Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnig rhaglen Bagloriaeth Cymru lefel 3 o ansawdd uchel iawn. Mae eu rhaglen yn amrywiol ac mae'n rhoi pwyslais cryf ar yr ymchwiliad unigol a'r profiad gwaith fel dull o ddatblygu'r medrau y mae eu hangen ar gyfer addysg uwch a gwaith. Yn yr ysgolion hyn, gwrandewir ar farn myfyrwyr ac maent yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau. Mae'r ysgolion hyn o blaid graddio'r cymhwyster ac mae rhai ohonynt wedi dechrau datblygu eu darpariaeth y tu hwnt i ofynion presennol y corff dyfarnu.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 ystyried adolygu strwythur Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, i adeiladu ar ei gryfderau a dileu ei wendidau;
- A2 gweithio gydag ysgolion a CBAC i gynllunio sut i gyflwyno graddio i asesu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru; ac
- A3 adolygu'r trefniadau ar gyfer asesu cymwysterau medrau hanfodol.

Dylai cyrff dyfarnu:

- A4 ddarparu arweiniad a deunyddiau enghreifftiol pellach i gefnogi ysgolion wrth gyflwyno ac asesu medrau hanfodol; a
- A5 datblygu gwefan Bagloriaeth Cymru i gynnwys ystod ehangach o adnoddau cymeradwy, gan gynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Dylai ysgolion uwchradd:

- A6 monitro'n agosach y trefniadau ar gyfer cyflwyno ac asesu medrau hanfodol fel nad ydynt yn or-fiwrocrataidd;
- A7 monitro ansawdd dysgu ac addysgu ym Magloriaeth Cymru fel rhan o'u gweithdrefnau hunanarfarnu arferol, gyda ffocws penodol ar gynnydd a safonau myfyrwyr; a
- A8 chasglu a defnyddio arfarniadau myfyrwyr o'u profiadau o Fagloriaeth Cymru i wella'r ddarpariaeth.

1 Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau myfyrwyr

- 24 Mae cyfraddau pasio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi amrywio, er bod nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster yn cynyddu'n fras.

Canran yr ymgeiswyr sy'n cyflawni cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch

Blwyddyn	Canran
2005	85.3%
2006	88.1%
2007	81.0%
2008	81.1%
2009	89.6%
2010	87.0%
2011	90.8%

(ffynhonnell: CBAC)

- 25 Pan nad yw myfyrwyr yn cyflawni Bagloriaeth Cymru, mae hyn yn aml gan nad ydynt wedi ennill y cymwysterau medrau hanfodol ar lefel 2 neu lefel 3. Dyma'r achos yn enwedig i fyfyrwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau portffolio cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, felly os yw ei fedrau llythrennedd Saesneg islaw lefel 2, ni fydd yn gallu cyflawni'r cymhwyster.
- 26 Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ystod o bynciau gan gynnwys materion gwleidyddol, materion cyfoes a dealltwriaeth o Gymru yn y byd. Fodd bynnag, mae'r profiadau hyn yn amrywio gormod rhwng ysgolion a dim ond dealltwriaeth arwynebol o'r materion hyn sydd gan leiafrif o fyfyrwyr, a phrin yw eu cynnydd.
- 27 Pan fyddant yn astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu hyder ac yn gwella'u medrau cymdeithasol, yn enwedig drwy gyfranogi yn y gymuned, profiad gwaith a gweithgareddau menter. Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd effeithiol i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau cyflwyno a gweithio mewn tîm. Hefyd, i fyfyrwyr sy'n astudio ystod gymharol gul o bynciau, er enghraifft mathemateg a phynciau'r gwyddorau, mae'r cymhwyster yn rhoi ystod ehangach o brofiadau iddynt nag y byddent yn ei chael fel arfer.
- 28 Mae llawer o fyfyrwyr yn gwella'u medrau hanfodol. Mae Bagloriaeth Cymru fel arfer yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr ddatblygu medrau cyfathrebu ar lefel 3 ac mae hyn yn gwella safonau darllen, ysgrifennu a llefared. Ychydig o fyfyrwyr sy'n cyflawni cymhwyso rhif neu dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar lefel 3.
- 29 Mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid yw medrau'n cael eu datblygu ar y lefel fwyaf priodol ar gyfer lefel gallu myfyrwyr, ac nid yw myfyrwyr bob amser yn gallu trosglwyddo medrau'n effeithiol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Dyma'r achos yn arbennig pan fydd myfyrwyr yn ennill cymwysterau medrau hanfodol yn ystod gwersi ar wahân ac nid fel rhan arferol o raglen drawsgwricwlaidd.

- 30 Mae llawer o fyfyrwyr yn gadarnhaol ynghylch eu profiadau o Fagloriaeth Cymru, yn enwedig profiadau sy'n gysylltiedig â menter. Fodd bynnag, mae mwyafrif y myfyrwyr o'r farn bod gormod o ffocws ar gwblhau'r gwaith papur a dim digon ar wella a datblygu eu medrau.
- 31 Mewn llawer o ysgolion, mae'r safonau uchaf yn y medrau hanfodol ehangach. Yn aml, y rheswm am hyn yw bod myfyrwyr yn gallu ymdopi â'r medrau hanfodol ehangach ar lefel 3 hyd yn oed os yw eu medrau llythrennedd a rhifedd efallai islaw'r lefel hon (gweler y tabl isod).

Lefel a gyflawnwyd mewn medrau hanfodol gan ymgeiswyr lefel uwch yn 2011

Lefel uwch	% y cynigion a gyflawnodd lefel medr			
	dim	1	2	3
Cymhwyso rhif	1.9	0.2	82.5	15.4
Cyfathrebu	1.8	0.1	8.3	89.8
TGCh	1.7	0.4	80.6	17.3
Gweithio gydag eraill	2.0	0.1	8.5	89.4
Gwella'ch dysgu eich hun	2.6	0.1	11.6	85.7
Datrys Problemau	2.5	0.1	38.5	58.7

(ffynhonnell: CBAC)

- 32 Mae'r ymchwiliad unigol yn rhoi cyfle defnyddiol i fyfyrwyr ddatblygu medrau ymchwil a dadansoddi. Maent o'r farn bod yr ymchwiliad yn baratoad gwerthfawr ar gyfer cyfweiliadau UCAS a chysiau addysg uwch. I lawer o fyfyrwyr, yr ymchwiliad unigol yw un o'r agweddau mwyaf heriol o'r rhaglen. Mae safonau'n amrywio'n helaeth ac mae rhai myfyrwyr yn cyflawni ar lefelau uchel iawn tra bod eraill ar y lefel pasio.
- 33 Ym mwyafrif yr ysgolion, mae'r safonau isaf i'w gweld yn y modiwl iaith 20 awr gan nad yw ysgolion bob amser yn cynnig rhaglen ddigon heriol sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr, yn enwedig y rhai mwy galluog. Mewn ambell enghraifft, mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r modiwl iaith yn rhy arwynebol ac, er bod myfyrwyr yn mwynhau'r gweithgareddau, nid ydynt yn eu herio nhw i feddwl a datblygu medrau ieithyddol ar lefel uwch.

2 Cynllunio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

- 34 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio eu darpariaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn effeithiol, gan ddyrannu cyfnod addas o amser y cwricwlwm iddi. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae'r amser sydd wedi'i ddyrannu i Bagloriaeth Cymru yn debyg i'r amser sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer pwnc Lefel A. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dilyn yr un patrwm o ddarpariaeth, gyda chyfuniad o wersi yn yr amserlen, ymweliadau unigol, cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd a rhaglen gyfoethogi helaeth sy'n ymdrin â llawer o elfennau craidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar ôl i'r arholiadau UG gael eu cynnal ym mlwyddyn 12. Ym mwyafrif yr ysgolion, mae llawer o raglen graidd Bagloriaeth Cymru wedi'i chwblhau erbyn diwedd blwyddyn 12 i roi mwy o amser i fyfyrwyr ganolbwyntio ar eu hopsiynau ym mlwyddyn 13.
- 35 Er bod llawer o ysgolion yn cynllunio'n helaeth i gynnig ystod eang a diddorol o weithgareddau, mewn lleiafrif o enghreifftiau, mae'r ddarpariaeth medrau hanfodol yn cael ei phennu gan ystyriaethau staffio ac nid yw hyn er budd pennaf myfyrwyr. Er enghraifft, gall myfyrwyr gwblhau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu gymhwyso rhif ar lefel 2 yn hytrach nag ar lefel 3 gan nad oes gan yr ysgol athrawon sydd â'r arbenigedd a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflwyno'r cymwysterau ar lefelau uwch.
- 36 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r amser ar ôl arholiadau blwyddyn 12 yn effeithiol i ddiddymu'r amserlen a chynnig rhaglen Bagloriaeth Cymru amrywiol a dwys. Yn aml, mae hyn yn cynnwys ffocws ar yr ymchwiliad unigol, profiad gwaith a pharatoi ar gyfer addysg uwch neu waith. Mewn ychydig ysgolion, mae myfyrwyr yn ymweld â sefydliadau addysg uwch i gymryd rhan mewn rhaglen bwrpasol ar ddatblygu medrau astudio. Lle mae hyn yn digwydd, mae myfyrwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau.
- 37 Mae llawer o ysgolion yn trefnu ystod briodol o weithgareddau. Fodd bynnag, mewn ychydig enghreifftiau, nid yw'r rhain bob amser yn ennyn diddordeb myfyrwyr yn effeithiol nac o ddiddordeb iddynt ac nid yw arddulliau addysgu a thasgau yn apelio i'r myfyrwyr. Mae gan lawer o ddosbarthiadau Bagloriaeth Cymru fyfyrwyr o ystod eang o allu. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae myfyrwyr sy'n dilyn opsiynau lefel 2 a lefel 3 yn cael eu grwpio gyda'i gilydd, sy'n golygu bod ystod gallu ehangach fyth o gymharu â'r rhan fwyaf o gyrsiau eraill. Lle nad yw athrawon yn paru gweithgareddau'n ddigon da i gefnogi neu herio myfyrwyr, nid yw myfyrwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.
- 38 Mae'r medrau hanfodol ehangach yn aml yn cael eu darparu yn ystod wythnosau thematig neu fel rhan o raglen hwy o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag agweddau eraill ar Bagloriaeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae medrau hanfodol, yn enwedig technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chymhwyso rhif, yn cael eu datblygu mewn gwersi ar wahân. Yn aml, daw portffolios cyfathrebu myfyrwyr o waith ar draws eu pynciau opsiwn neu o weithgareddau Bagloriaeth Cymru ym maes Cymru, Ewrop a'r Byd.

- 39 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw gweithgareddau bob amser yn herio myfyrwyr i feddwl a datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn ddigonol. Yn yr enghreifftiau hyn, mae gweithgareddau wedi'u targedu tuag at fyfyrwyr gallu canolig ac nid ydynt yn bodloni anghenion myfyrwyr o'r ystod lawn o alluoedd.
- 40 Mae Bagloriaeth Cymru yn fwyaf llwyddiannus mewn ysgolion lle mae'n elfen orfodol o'r cwricwlwm. Y rheswm am hyn yw bod yr ysgolion hyn yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cwblhau'r cymhwyster ac nid ydynt yn caniatáu i fyfyrwyr eithrio ohono, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Yn ogystal, bydd ystod ehangach o weithgareddau yn yr ysgolion hyn yn aml. Mewn ysgolion lle mae'r cymhwyster yn opsiwn, mae cyfraddau cwblhau yn is gan fod lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi'r gorau iddo. Mae hyn naill ai oherwydd eu bod yn gadael cyn diwedd eu cwrs neu am eu bod eisiau canolbwyntio ar eu pynciau opsiwn.
- 41 Mae lleiafrif cynyddol o ysgolion wedi addasu'r ffordd y maent yn cynnig Bagloriaeth Cymru gan fod cyllid grant wedi gostwng. Mae gostyngiad mewn cyllid grant a chyflwyno trefniadau 'prin gyflenwi'¹ wedi golygu nad yw lleiafrif o ysgolion yn cynnig yr un amrywiaeth o weithgareddau ag y gwnaethant pan ddechreuont Bagloriaeth Cymru yn y lle cyntaf. Mae'r ysgolion hyn wedi lleihau nifer yr ymweliadau preswyl ac ymweliadau dydd ac yn lle hynny maent yn gwahodd siaradwyr gwadd i'r ysgol i leihau costau.
- 42 Gydag amser, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwneud mân newidiadau i'r ffordd y maent yn darparu ar gyfer Bagloriaeth Cymru, fel datblygu partneriaethau newydd a newid adnoddau. Mae hyn yn aml yn dilyn adborth gan gyrff dyfarnu a safonwyr Bagloriaeth Cymru. Gwelwyd y newidiadau mwyaf yn y ffordd y mae ysgolion yn delio â'r ymchwiliad unigol, gyda ffocws cynyddol ar fedrau astudio ac ar ddefnyddio'r ymchwiliad unigol fel paratoad ar gyfer addysg uwch.

¹ Gweler yr eirfa

3 Addysgu, asesu a chymorth mentora

Addysgu

- 43 At ei gilydd, mae ansawdd addysgu Bagloriaeth Cymru yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o enghreifftiau, nid yw athrawon yn herio myfyrwyr ddigon nac yn cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion myfyrwyr o ystod gallu eang sy'n astudio Bagloriaeth Cymru ar lefel 3. Yn aml yn nosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, mae myfyrwyr ynddynt yn dilyn cymwysterau lefel 2 a lefel 3 ac, o ganlyniad, mae ystod gallu ehangach nag y byddai fel arfer mewn un dosbarth lefel UG, lefel A neu BTEC lefel 2 neu lefel 3.
- 44 Nid yw ychydig agweddau ar y rhaglen, yn arbennig medrau hanfodol, bob amser yn cael eu haddysgu'n dda ac nid ydynt yn cymell nac yn symbylu lleiafrif o fyfyrwyr. Mae'r addysgu gwannaf i'w weld mewn gwersi lle caiff medrau hanfodol eu darparu ar wahân. Yn y gwersi, hyn, mae myfyrwyr yn treulio cyfnodau hir yn cwblhau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau. Mae hyn yn cymryd gormod o amser ac yn rhy ailadroddus ac nid yw'n helpu myfyrwyr i wella'u medrau.
- 45 Mae gofynion ar gyfer cyfathrebu lefel 3 yn benodol hefyd yn golygu bod rhai athrawon yn treulio cryn amser yn marcio gwaith myfyrwyr, fel y gall myfyrwyr wneud yn siŵr ei fod yn bodloni gofynion.

Asesu

- 46 Mae gan leiafrif o ysgolion systemau effeithlon a hylaw ar gyfer olrhain a monitro profiadau a chynnydd myfyrwyr. Mae bron pob ysgol yn casglu gwybodaeth am yr elfennau gwahanol, er yn y mwyafrif o ysgolion, dim ond y cydlynnydd neu'r cynorthwydd gweinyddol sy'n gallu cael at y wybodaeth hon. Dim ond ychydig ysgolion sy'n rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd gydag athrawon, anogwyr dysgu, rhieni a myfyrwyr. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r wybodaeth i olrhain tanberfformio ac i ymyrryd trwy gymorth ychwanegol neu her pan fo angen.
- 47 Mae mwyafrif o ysgolion yn anfon adroddiad ar Bagloriaeth Cymru at rieni ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn academiaidd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi natur gweithgareddau Bagloriaeth Cymru sy'n cael eu cynnig yn yr ysgol, ac mae'n cynnig trosolwg byr ynghylch a yw'r myfyrwyr ar y trywydd cywir i gyflawni'r cymhwyster, gan amlygu unrhyw feysydd o danberfformio. Mae cyfraddau cwblhau yn uwch mewn ysgolion sydd â mecanweithiau rheolaidd ar gyfer rhoi adborth i rieni am Bagloriaeth Cynnydd ac am gynnydd eu plentyn.

Mentora

- 48 Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn gryfderau ysgolion uwchradd yng Nghymru ac roeddent yn dda neu'n well ym mron pob un o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2010-2011.

- 49 Mewn llawer o ysgolion, mae'r cymorth mentora a thiwtorial yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a chyflawniad myfyrwyr, nid yn unig ym Magloriaeth Cymru ond ar draws y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Mae llawer o fyfyrwyr yn elwa o gymorth unigol targedig neu gymorth grŵp, sy'n rhoi dealltwriaeth glir iddynt o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Lle bo hyn yn fwyaf llwyddiannus, mae uwch arweinwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen gymorth ac mae hyn yn rhoi statws uchel i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

4 Datblygiad staff, adnoddau a gweithio mewn partneriaeth

Datblygiad staff

- 50 Mae datblygiad a hyfforddiant effeithiol i staff yn hanfodol i lwyddiant Bagloriaeth Cymru. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion dîm mawr o athrawon sydd ag arbenigedd mewn meysydd gwahanol, fel mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac addysg bersonol a chymdeithasol, sy'n addysgu'r agweddau amrywiol ar y rhaglen. Yn aml, bydd tiwtoriaid chweched dosbarth hefyd yn chwarae rhan ganolog yn darparu agweddau ar y rhaglen. Gan fod cyfran fawr o staff yr ysgol yn cymryd rhan yn y cyflwyno, mae hyfforddiant a chymorth o ansawdd da yn helpu i gynnig cysondeb o ran dulliau.
- 51 Prif ffynhonnell yr hyfforddiant, cyngor a chymorth yw trwy dîm Bagloriaeth Cymru CBAC. Mae CBAC yn cynnig rhaglen hyfforddi flynyddol briodol. Cryfhawyd y rhaglen hon yn ddiweddar yn sgil penodi pedwar o swyddogion cymorth rhanbarthol yn ogystal â'r ddau swyddog pwnc sydd eisoes mewn swydd. Mae llawer o ffocws yr hyfforddiant ar drefnu a gweithredu'r ymchwiliad unigol ynghyd â chasglu gwybodaeth ar gyfer proffil y ganolfan. Mae mwyafrif yr ysgolion eisoes wedi gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd y swyddogion cymorth rhanbarthol ac wedi'u gwahodd i hyfforddi a chefnogi staff yn eu hysgolion. Hefyd, mae llawer o ysgolion wedi ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda a'i rhannu, ac i rannu adnoddau. Mae canolfannau newydd wedi elwa ar arbenigedd a chymorth gan ganolfannau mwy profiadol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gadarnhaol iawn ynghylch y cymorth y maent yn ei gael gan swyddogion CBAC.
- 52 Mae cyrff dyfarnu heblaw am CBAC hefyd yn cynnig cymorth ynghylch darparu ac achredu medrau hanfodol. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn, er y byddent hoffi gweld mwy o ddeunyddiau enghreifftiol yn cael eu rhannu a'u trafod yn ystod hyfforddiant. Ar hyn o bryd, nid oes digon o ddeunydd enghreifftiol ar gael i ysgolion.

Adnoddau

- 53 Mae gan lawer o ysgolion adnoddau digonol i gefnogi rhaglen Bagloriaeth Cymru. Mae adnoddau newydd i gefnogi addysgu Cymru, Ewrop a'r Byd yn rhai o ansawdd uchel ac maent ar gael yn ddwyieithog. Yn ogystal, mae bron pob ysgol wedi datblygu ei hystod eang ei hun o adnoddau, er mai dim ond lleiafrif sy'n gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys byrddau gwyn rhyngweithiol, i ategu addysgu Bagloriaeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o enghreifftiau, mae gan athrawon Bagloriaeth Cymru gyfrifoldeb am ddatblygu adnoddau mewn

meysydd penodol, er enghraifft ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol neu elfennau o fodiwl Cymru, Ewrop a'r Byd.

- 54 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r rhyngrwyd fel eu prif ffynhonnell ar gyfer casglu adnoddau ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r newidiadau diweddar i wefan Bagloriaeth Cymru (www.wbq.org.uk) yn golygu bod ystod ehangach o adnoddau ar gael erbyn hyn. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ar-lein sy'n cael eu cynhyrchu gan elusennau a sefydliadau lleol. Fodd bynnag, nid yw'r holl adnoddau hyn ar gael yn y Gymraeg.
- 55 Mae ystod yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yn parhau i wella ond mae prinder cyffredinol o adnoddau Cymraeg yn parhau, yn enwedig ar gyfer modiwlau addysg bersonol a chymdeithasol. Lle bo adnoddau Cymraeg yn bodoli, nid yw ysgolion bob amser yn gwybod sut na ble i gael at y rhain.
- 56 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi datblygu cysylltiadau effeithiol gyda darparwyr eraill i rannu adnoddau, er, gan amlaf, nid oes ganddynt weithdrefnau i sicrhau ansawdd, gwirio a dilysu adnoddau. O ganlyniad, mae ychydig ganolfannau newydd yn amharod i ddefnyddio'r adnoddau hyn gan nad ydynt yn siŵr a ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer Bagloriaeth Cymru.
- 57 Nid oes gan leiafrif o ysgolion fynediad digon da at dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu rhaglen Bagloriaeth Cymru yn effeithiol. Gan nad oes cymhwyster dirprwyol² ar gyfer cymhwyster medr allweddol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar lefel 2 mwyach, mae llawer o ysgolion bellach yn cynnwys gwersi ar wahân i fyfyrwyr yn yr amserlen. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae hyn yn rhoi pwysau ar eu hadnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n cael ei waethgu ymhellach gan yr angen i fyfyrwyr ddefnyddio cyfrifiaduron i gynnal ymchwil a chynhyrchu dogfennau ar brosesydd geiriau pan fyddant yn cwblhau eu hymchwiliad unigol. Pan fydd ysgolion hefyd yn cynnig Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a chysiau galwedigaethol sy'n gofyn am ddefnyddio cyfrifiaduron, nid ydynt bob amser yn dyrannu adnoddau'n effeithiol i ddarparu ar gyfer yr agwedd hon ar raglen Bagloriaeth Cymru.

Gweithio mewn partneriaeth

- 58 Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd gref o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae gan bron pob ysgol bartneriaethau effeithiol ag ystod eang o sefydliadau i gefnogi eu rhaglen. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gysylltiadau cynhyrchol â busnesau lleol i gefnogi eu rhaglenni menter a phrofiad gwaith. Mae elusennau lleol a sefydliadau cenedlaethol hefyd yn rhoi mewnbwn gwerthfawr. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau'n amharod i deithio i ysgolion, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd mwy gwledig.
- 59 Cyn dechrau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymweld â chanolfannau mwy profiadol i arsylwi ar arfer dda a thrafod ffyrdd o drefnu'r gwaith. Mae cydlynwyr newydd yn gwerthfawrogi'r ymweliadau hyn yn fawr. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cyfarfod ag ysgolion lleol eraill i rannu adnoddau a thrafod arfer dda.

² Gweler yr eirfa

5 Arweinyddiaeth ac arfarnu

Arweinyddiaeth

- 60 Lle mae darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn llwyddiannus, mae cefnogaeth gadarn gan y pennaeth ac arweinyddiaeth effeithiol gan gydlynnydd Bagloriaeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cydlynwyr yn arweinwyr canol neu uwch gwybodus a threfnus sydd wedi sefydlu ethos o weithio fel tîm. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli rhaglen Bagloriaeth Cymru yn dda. Lle mae gan ysgol nifer fawr o fyfyrwyr sy'n dilyn y rhaglen, mae gan y pennaeth, uwch reolwyr a'r corff llywodraethol gysylltiad agos â chyflwyno'r rhaglen ac, yn aml, wrth ei rhoi ar waith. Mae gan y mwyafrif o ysgolion uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am gydlynw gwaith y tîm o athrawon sy'n rhan o addysgu'r rhaglen. Yn yr ysgolion hyn, mae timau'n cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae canran y myfyrwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster yn uwch. Mae myfyrwyr ar draws y grŵp blwyddyn yn cael rhaglen fwy cyson ac maent yn fwy tebygol o lwyddo.
- 61 Ym mhob ysgol sy'n cynnig Bagloriaeth Cymru, mae uwch arweinwyr yn cefnogi ac yn gweld bod gwerth mawr mewn cynnig y cymhwyster. Fodd bynnag, mae graddau'r cymorth o ddydd i ddydd yn amrywio gryn dipyn. Mae'r cymorth hwn yn aml yn dibynnu ar brofiad y cydlynnydd. Wrth i gydlynwyr ddod yn fwy profiadol, mae'r cymorth o ddydd i ddydd sy'n ofynnol gan uwch arweinwyr yn gostwng.
- 62 Pan fydd cyfraddau cyrhaeddiad uchel gan ysgolion, mae hyn yn aml o ganlyniad i gymorth uwch arweinwyr sy'n cefnogi partneriaethau, yn mentora grŵp o fyfyrwyr, yn rhyddhau staff i fynd i ddigwyddiadau hyfforddi ac sy'n marchnata'r cymhwyster ymhlith myfyrwyr a rhieni.
- 63 Mae gan bron pob ysgol gydlynnydd pwrpasol ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r cydlynnydd hwn yn aelod o'r uwch dîm arwain. Mewn lleiafrif o ysgolion mwy o faint, oherwydd bod nifer y myfyrwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru wedi cynyddu gydag amser, mae arweinwyr wedi ailddyrannu cyfrifoldebau'n briodol rhwng dau o bobl neu ragor. Yn aml, bydd cydlynnydd Bagloriaeth Cymru sy'n gweithio ochr yn ochr â chydlynnydd medrau hanfodol ac mae hyn yn gweithio'n dda.
- 64 Mewn llawer o ysgolion, mae cynorthwyydd gweinyddol sy'n cynorthwyo'r cydlynnydd â mewnbynnu a choladu data. Mae cydlynwyr yn ystyried bod y cymorth hwn yn hanfodol i lwyddiant y cymhwyster ac ni fyddai llawer yn gallu ymgymryd â'u rôl heb y cymorth hwn.

Arfarnu

- 65 Dros y deng mlynedd diwethaf, mae ansawdd hunanarfarnu wedi gwella'n sylweddol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Roedd gwella ansawdd yn dda neu'n well mewn llawer o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd gennym yn 2010-2011. Mae gan lawer o ysgolion brosesau sefydledig ar gyfer hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth addas. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn sefyll y tu allan i'r gweithdrefnau hunanarfarnu arferol.

Ychydig iawn o ysgolion sy'n monitro gwersi Bagloriaeth Cymru yn systematig er mwyn asesu cynnydd a datblygiad medrau myfyrwyr. Mewn llawer o ysgolion, nid yw arfarnu Bagloriaeth Cymru yn ddigon cadarn ac mae'n aml yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd. Dywed rhai myfyrwyr bod gormod o'r gwaith ar lefel rhy isel a bod y cwrs yn cymryd gormod o amser ac yn tynnu sylw o'r amser y maent yn ei dreulio ar eu hastudiaethau UG a lefel A.

- 66 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn ceisio barn myfyrwyr yn rheolaidd ac yn systematig er mwyn datblygu darpariaeth Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ysgolion, er bod cydlynwyr yn cynnwys myfyrwyr mewn rhai gweithgareddau hunanarfarnu, nid yw deilliannau o'r adolygiadau hyn yn cael eu defnyddio'n ddigon da nac yn ddigon rheolaidd i wella'r ddarpariaeth a'r addysgu yn benodol.
- 67 Er bod yr holl ysgolion yn safoni ymchwiliadau unigol a dyddiaduron myfyrwyr fel rhan o ofynion CBAC ar gyfer Bagloriaeth Cymru, ychydig iawn o graffu sy'n cael ei wneud ar waith a gwblhawyd fel rhan o fodiwl Cymru, Ewrop a'r Byd a'r modiwl iaith.
- 68 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'u canlyniadau i fesur llwyddiant eu darpariaeth ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Dim ond ychydig iawn o ysgolion sydd:
- yn dadansoddi'r data sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth, adeg pwyntiau allweddol drwy gydol y cwrs ar berfformiad myfyrwyr, gan gynnwys gwybodaeth am fedrau hanfodol;
 - yn asesu cynnydd yn ôl deilliannau mesuradwy a heriol;
 - yn arfarnu eu darpariaeth gwricwlaidd i wneud yn siŵr bod rhaglen Bagloriaeth Cymru yn bodloni anghenion pob myfyriwr;
 - yn casglu dystiolaeth uniongyrchol am ansawdd addysgu a dysgu;
 - yn cynnal arsylwadau gwersi;
 - yn craffu ar ansawdd gwaith ysgrifenedig; ac
 - yn ystyried barn rhieni a myfyrwyr.

6 Cymorth gan gyrff dyfarnu

- 69 Mae cyrff dyfarnu yn cynnal digwyddiadau hyfforddiant cyffredinol yn flynyddol yn ogystal â hyfforddiant penodol ar gyfer canolfannau newydd. Mae rhaglen hyfforddi flynyddol Cymhwyster Bagloriaeth Cymru sy'n cael ei chynnig gan CBAC yn cynnig cyfleoedd da i ysgolion weithio gyda'i gilydd a rhannu arfer effeithiol.
- 70 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a gânt gan CBAC fel corff dyfarnu Bagloriaeth Cymru. Maent o'r farn bod cyfathrebu rhwng CBAC ac ysgolion yn dda iawn yn gyffredinol a bod staff CBAC yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw ymholiadau.
- 71 Mae'r cymorth gan y cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol am y cymwysterau medrau hanfodol yn amrywio. Nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi cael arweiniad digonol am y cymwysterau ac mae llawer ohonynt wedi'i chael yn anodd dod o hyd i enghreifftiau o arfer dda.
- 72 Y prif ddiffygion yn yr hyfforddiant i lawer o ysgolion fu dim digon o ffocws ar ofynion cymwysterau medrau hanfodol a diffyg adborth manwl am ffiniau graddau'r ymchwiliad unigol.
- 73 Mae dadleuon cryf o blaid graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Byddai graddio yn adlewyrchu ystod lawn lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr yn decach. Mae mwyafrif yr ysgolion o blaid graddio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn enwedig y rheiny sy'n cynnig y ddarpariaeth orau. Maent o'r farn y dylai graddio gael ei seilio ar ansawdd yr ymchwiliad unigol. Byddai symud tuag at raddio'r cymhwyster yn cydnabod y gwaith o ansawdd uchel sy'n cael ei gynhyrchu gan leiafrif o fyfyrwyr, yn ogystal â symbylu'r myfyrwyr eraill sy'n cwblhau'r lleiaf posibl i basio'r cymhwyster. Ar adeg pan fo llawer o ysgolion uwchradd yn cynnig Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch, byddai graddio'r cymhwyster yn cryfhau ei safle yn y cwricwlwm ac ymhlith ceidwaid pyrth addysg uwch.

Atodiad 1 – Astudiaethau achos

Astudiaethau achos 1

Ysgol y Preseli – Gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau myfyrwyr

Cyd-destun

Mae Ysgol y Preseli yn ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig, gymysg, i ddisgyblion 11-18 oed yng Nghrymmych, Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae 967 o ddisgyblion ar y gofrestr. Yn 2011, roedd 6.1% o ddisgyblion oedran statudol yn cael prydau ysgol am ddim, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 17.7%. Roedd yr ysgol yn rhan o gynllun peilot y Fagloriaeth ac mae wedi cynnig y cymhwyster er 2004.

Strategaeth

Nod yr ysgol yw cynnig rhaglen Bagloriaeth Cymru o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion ei myfyrwyr ac sy'n eu helpu nhw i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae Bagloriaeth Cymru yn rhan annatod o'r cwricwlwm ôl-16 oed a chaiff gweithgareddau eu cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau myfyrwyr i'w cefnogi nhw ar draws y cwricwlwm

Gweithred

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi mireinio ei rhaglen Bagloriaeth Cymru. Yn 2009, fe gyflwynodd gymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 ac fe wnaeth hyn olygu bod angen gwaith pellach i wneud yn siŵr bod disgyblion y chweched dosbarth yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau, a'u bod yn adeiladu'n effeithiol ar yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau; mae hyn yn cynnwys ymweliadau â digwyddiadau lleol a chenedlaethol, cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd a chysylltiadau sefydledig â sefydliad addysg uwch lleol. Mae'r holl staff yn cymryd rhan mewn rhyw agwedd ar gyflwyno Bagloriaeth Cymru a chânt hyfforddiant o ansawdd uchel yn rheolaidd.

Deilliannau

Mae bron pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar ddechrau blwyddyn 12 yn cyflawni Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion ar draws Cymru. Mae gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr ddealltwriaeth dda iawn o faterion cyfoes, materion gwleidyddol ac ystod eang o bynciau eraill sydd wedi'u cynnwys yn rhaglen astudio Bagloriaeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau o Fagloriaeth Cymru a'r effaith gadarnhaol y mae'r rhaglen wedi'i chael ar eu paratoad ar gyfer addysg uwch, addysg bellach neu waith.

Astudiaeth achos 2

Ysgol Morgan Llwyd – Cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm (Y modiwl iaith)

Cyd-destun

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ag 800 o ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Wrecsam, tair milltir o'r ffin â Lloegr. Cafodd tua 13.8% o'r disgyblion oedran statudol brydau ysgol am ddim yn 2011, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sef 17.7%. Mae Bagloriaeth Cymru yn orfodol ar gyfer pob myfyriwr chweched dosbarth. Roedd yr ysgol yn rhan o gynllun peilot y Fagloriaeth ac mae wedi cynnig y cymhwyster er 2004.

Strategaeth

Nod y modiwl iaith (Gwyddeleg) yw caniatáu i fyfyrwyr gael profiad o iaith leiafrifol arall. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i'w hysgogi a'u symbylu nhw i barhau i fod yn angerddol ynghylch yr iaith Gymraeg, nid yn unig pan fyddant yn yr ysgol ond pan fyddant yn oedolion hefyd. Mae addysgu iaith Geltaidd arall a'i chefnidir hanesyddol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i hyrwyddo hen hanes Cymru a'i threftadaeth. Mae'r gwaith hwn yn caniatáu i'r myfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth o'u dinasyddiaeth Gymreig, ynghyd â dinasyddiaeth ryngwladol.

Gweithred

Caiff pedwar diwrnod eu dyrannu i addysgu'r Wyddeleg. Mae'r diwrnod cyntaf yn ymwneud â chyflwyno hanes Gweriniaeth Iwerddon ynghyd â chanlyniadau'r ddau gyfrifiad diwethaf gyda chyfeiriad at y Wyddeleg. Wedyn, bydd dau ddiwrnod o ddysgu'r iaith. Paratowyd llyfryn geirfa ar gyfer hyn. Yna, caiff yr iaith ei rhoi ar waith. Mae'r myfyrwyr yn ymweld â rhanbarth Rathcairn am ddiwrnod. Mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gwersi Gwyddeleg a gwersi dawnio ac maent yn ymweld â Llyfrgell Rathcairn, lle mae amrywiaeth o lyfrau Gwyddeleg iddynt eu darllen. Hefyd, cânt eu haddysgu am hanes yr ardal a sefydlu'r ardal yn gaeltacht (rhanbarth) gan bobl a wnaeth fudo yno o Connemara. Ar ddiwedd eu cyflwyniad, mae'r myfyrwyr yn cyflwyno araith yn y Wyddeleg gyda chyfieithiad Cymraeg i banel o diwtoriaid chweched dosbarth.

Deilliannau

Mae addysgu'r Wyddeleg wedi cael effaith sylweddol ar fwynhad myfyrwyr o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac ar eu cyfraniad at y modiwl iaith. Mae pob myfyriwr, yn ddiethriad, yn deall pwysigrwydd yr iaith. Mae trigolion Rathcairn wedi croesawu'r agwedd hon ar y bartneriaeth ac mae'r ddwy ysgol yn ymweld ag Ysgol Gynradd Rathcairn, sydd â 250 o ddisgyblion. Mae llawer o'r myfyrwyr chweched dosbarth a ymwelodd â Rathcairn y llynedd wedi parhau i ddatblygu'r cysylltiadau a sefydlwyd gyda phobl ifanc y rhanbarth yn ystod yr ymweliad. Maent yn cyfathrebu'n rheolaidd drwy gyfryngau cymdeithasol. Dyma ddatblygiad annisgwyl y mae'r ysgol yn ei groesawu'n gyfan gwbl, gan ei fod wedi helpu i hyrwyddo dinasyddiaeth dda.

Astudiaeth achos 3

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd – Datblygiad a hyfforddiant staff

Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd yn ysgol gymunedol gymysg, ar ddau safle, i ddisgyblion 11-18 oed. Ar hyn o bryd, mae 2269 o ddisgyblion ar y gofrestr a 465 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn yr Eglwys Newydd, ardal faestrefol yng ngogledd dinas Caerdydd. Yn 2011, roedd hawl gan 13.3% o'r disgyblion oedran statudol i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol sef 17.7%.

Strategaeth

Sicrhau bod Bagloriaeth Cymru yn cael ei hintegreiddio'n llwyddiannus i strwythurau presennol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y cyfnod ôl-16 oed, ynghyd â gwella ymhellach ansawdd y craidd dysgu. Mae pob adran a phob aelod o'r staff addysgu a staff cymorth yn cymryd rhan mewn cyflwyno Bagloriaeth Cymru mewn rhyw ffordd a chânt hyfforddiant yn gysylltiedig â'u maes cyfrifoldeb. Mae'r hyfforddiant hwn yn mynd yn ei flaen yn barhaus, gyda diweddariadau angenrheidiol yn cael eu rhaeadru i aelodau staff newydd.

Gweithred

Mae'r ysgol wedi cyflwyno pecyn hyfforddi cynhwysfawr i ategu ei rhaglen Bagloriaeth Cymru.

Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â'r agweddau canlynol:

- mae cydlynnydd Bagloriaeth Cymru ac uwch arweinwyr yn mynd i gynhadledd hyfforddi CBAC bob blwyddyn ac mae un cynrychiolydd hefyd yn mynd i'r hyfforddiant mewn swydd ar fedrau hanfodol ehangach. Caiff gwybodaeth berthnasol a dogfennau defnyddiol eu dosbarthu ymhlith aelodau staff allweddol ac yna'u rhaeadru ymhellach i adrannau;
- mae'r holl staff yn cael hyfforddiant blynyddol yn canolbwyntio ar agweddau ar raglen Bagloriaeth Cymru ac mae cynrychiolwyr adrannol yn mynd i gyfarfodydd pwyllgor Bagloriaeth Cymru. Caiff y rhain eu cynnal unwaith bob hanner tymor. Mae cynrychiolwyr yn trosglwyddo cyngor ac yn hyfforddi eu hadrannau eu hunain gan ystyried materion a gweithrediadau sy'n perthyn yn benodol i adrannau;
- hefyd, cafodd mentoriaid Bagloriaeth Cymru hyfforddiant ychwanegol i'w cefnogi yn eu rôl; ac
- mae staff nad ydynt yn staff addysgu yn cael hyfforddiant ar y cymhwyster ac mae aelodau staff newydd yn cael cyflwyniad iddo fel rhan o'u proses sefydlu.

Deilliannau

Mae'r ysgol o'r farn bod cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn hwyluso cynnydd disgyblion ar adeg hollbwysig yn eu haddysg. Mae'r strwythur ar gyfer cyflwyno'r

cymhwyster yn integreiddio'n dda â'r cyrsiau y mae disgyblion wedi dewis eu dilyn ac mae'n cynnig mwy o gyfleoedd am gymorth grŵp a chymorth unigol. Mae'r strategaeth yn sicrhau bod yr holl aelodau staff yn deall y cymhwyster yn llawn a bod rolau a chyfrifoldebau unigol wedi'u diffinio'n glir. Mae hyn wedi arwain at ganran uwch o ddisgyblion yn cyflawni'r trothwy lefel 3 flwyddyn ar ôl blwyddyn a sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru.

Astudiaeth achos 4

Ysgol Uwchradd Penarlâg – Rhaglen fentora

Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Penarlâg yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed sydd â 1,160 o ddisgyblion, gan gynnwys ychydig dros 200 yn y chweched dosbarth. Roedd tua 7.3% o ddisgyblion oedran statudol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru sef 17.7% ar gyfer ysgolion uwchradd.

Strategaeth

Rhoi arweiniad a chymorth i fyfyrwyr wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 4 i'r cyfnod ôl-16 a datblygu medrau myfyrwyr fel myfyrwyr annibynnol yn barod ar gyfer dewisiadau ôl-18 oed. Mae darpar fyfyrwyr yn cael cyfweiliad gydag aelod o'r grŵp arwain yn ystod tymor y gwanwyn ym mlwyddyn 11. Hefyd, maent yn cael cyfweiliad gydag ymgynghorydd cyswllt Gyrfa Cymru ac yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau sydd wedi'i chydlynu'n ofalus. Mae'r ysgol wedi ymestyn lefel ei harweiniad a'i chymorth wrth i fyfyrwyr barhau i'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol wedi adeiladu ar y gofynion i gael tiwtorialau unigol trwy ailgynllunio amserlen y chweched dosbarth i ddarparu dwy awr o arweiniad ychwanegol bob wythnos.

Gweithred

Fel rhan o raglen Bagloriaeth Cymru, mae myfyrwyr yn cael sesiwn unigol 10 munud, sydd wedi'i chynnwys yn yr amserlen, gyda'u hanogwr dysgu, bob tair wythnos. Mae'r sesiynau hyn yn annog trafodaeth i adolygu perfformiad a sefydlu targedau. Caiff targedau a gweithrediadau cytûn eu cofnodi a'u logio'n electronig. Yna, caiff y rhain eu hadolygu yn y sesiwn diwtorial ganlynol a'u cyfleu yn wythnosol i diwtoriaid drwy gyfarfod anogwyr dysgu Bagloriaeth Cymru. Caiff trosolwg o'r wybodaeth hon ei gynnal gan y gweinyddwr sy'n sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'r staff bugeiliol a'r staff uwch, i'w defnyddio mewn trafodaethau mentora anffurfiol. Mae'r holl fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn diwrnod cyfweld ffug yn ystod blwyddyn 12. Mae nifer o gyflogwyr lleol yn darparu adnoddau ar gyfer y rhaglen hon ac mae'n galluogi pob myfyriwr i gymryd rhan mewn cyfweiliad unigol, gydag adborth priodol i ddilyn.

Deilliannau

Mae myfyrwyr yn gwneud dewisiadau mwy gwybodus a realistig am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae arolygon yn dangos bod llawer o fyfyrwyr yn hyderus wrth gymhwyso meddwl strategol i'w hastudiaethau, gan gyflawni deilliannau gwell o

ganlyniad. Yn 2010 a 2011, cyflawnodd 99% o'r myfyrwyr drothwy lefel 3. Y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach oedd 966, sef gwelliant o 190 o bwyntiau yng nghyfartaledd dreigl yr ysgol ar gyfer y tair blynedd flaenorol (2008-2010). Mae cyfradd dilyniant y myfyrwyr o flynyddoedd 12 i 13 yn parhau i wella gyda'r rhan fwyaf o fyfyrwyr blwyddyn 12 yn symud ymlaen o gyrsiau UG i lefel A.

Atodiad 2 – Y sylfaen dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar:

- ymweliadau gan Estyn â sampl gynrychioliadol o ddau ar hugain o ysgolion uwchradd yn hydref 2011. Bu arolygwyr yn cyfweld ag uwch arweinwyr a chydlynwyr Bagloriaeth Cymru, yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys cynlluniau cwricwlaid a chynlluniau gwaith, ac yn cyfweld â grŵp o fyfyrwyr;
- holiaduron a lenwyd gan 167 o fyfyrwyr;
- holiaduron a lenwyd gan naw ysgol uwchradd heblaw am yr ysgolion y cynhaliwyd ymweliadau â nhw; ac
- adolygiad o lenyddiaeth berthnasol.

Dyma'r ysgolion a gafodd ymweliadau fel rhan o'r adroddiad cylch gwaith hwn:

- Ysgol Alun, Sir y Fflint;
- Ysgol Uwchradd Caereinion, Powys;
- Ysgol Gyfun y Bont-faen, Bro Morgannwg;
- Ysgol Uwchradd Crughywel, Powys;
- Ysgol Uwchradd Penarlâg, Sir y Fflint;
- Ysgol Gymunedol Sir y Porth, Rhondda Cynon Taf;
- Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Sir Gaerfyrddin;
- Ysgol Syr Thomas Picton, Sir Benfro;
- Ysgol Gyfun St Cyres, Bro Morgannwg;
- Ysgol Maelor, Wrecsam;
- Ysgol Gyfun yr Eglwys Newydd, Caerdydd;
- Ysgol Bryn Elan, Conwy;
- Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd;
- Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen;
- Ysgol Maes Yr Yrfa, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam;
- Ysgol Penglais, Ceredigion;
- Ysgol y Preseli, Sir Benfro;
- Ysgol Tryfan, Gwynedd;
- Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn;
- Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, Sir Ddinbych.

Dyma'r ysgolion a lenwodd yr holiadur:

- Ysgol Uwchradd Afon Taf, Merthyr;
- Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt, Powys;
- Ysgol Uwchradd Cei Connah, Sir y Fflint;

- Ysgol Uwchradd Pontypridd, Rhondda Cynon Taf;
- Ysgol John Beddoes, Powys;
- Ysgol Gyfun Stanwell, Bro Morgannwg;
- Ysgol Sant Cenydd, Caerffili;
- Ysgol Tasker-Milward, Sir Benfro;
- Ysgol John Bright, Conwy; ac
- Ysgol Rhiwabon, Wrecsam.

Geirfa/cyfeiriadau

CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
Cymwysterau medrau hanfodol Cymru	Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys Cymhwysio Rhif, Cyfathrebu a TGCh. Caiff pob medr ei asesu ar lefelau 1 i 4 drwy bortffolio sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.
Cymwysterau medrau allweddol ehangach	Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys Gweithio gydag Eraill, Datrys Problemau a Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad eich hun. Caiff pob medr ei asesu ar lefelau 1 i 4 drwy bortffolio sy'n cael ei asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.
Cymhwyster dirprwyol ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Pan fydd myfyrwyr wedi cyflawni gradd C mewn TGAU, gallant wneud cais am gymhwyster dirprwyol ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu lefel 2.
Prin gyflenwi	Er 1 Medi 2009, bu'n ofynnol bod gan bob ysgol yng Nghymru bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod athrawon ac uwch arweinwyr yn cyflenwi dim ond yn achlysurol iawn o dan amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld.

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Catherine Evans AEM	Awdur
Iolo Dafydd AEM	Aelod o dîm yr arolwg
Ray Owen AEM	Aelod o dîm yr arolwg